Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# CANLLAWIAU AR GWYMPIADAU A DIOGELU OEDOLION AR GYFER DARPARWYR



**Cadarnhawyd gan y Bwrdd Medi 2024**

**Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

**Dyddiad adolygu: Medi 2027**

**Cynnwys** **Rhif Tudalen**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Diffiniadau | 3 |
| Pryd i Atgyfeirio neu Beidio | 4 |
| Cyfrifoldebau Darparwyr Gofal | 7 |
| Enghreifftiau | 9 |
| Cysylltiadau Awdurdodau Lleol | 11 |


**Atodiadau**


| | |
|---|---|
| Atodiad Un: Siart llif y broses | 12 |

## 1. <u>Cyflwyniad</u>

Bwriad y protocol hwn yw rhoi arweiniad ar sut i ymateb i godymau a chefnogi'r defnydd o grebwyll proffesiynol wrth benderfynu a oes angen gweithredu'r Dyletswydd i Adrodd - Diogelu Oedolion. Yn aml mae modd atal cwympiadau a thoresgyrn mewn pobl hŷn. Mae lleihau nifer yr achosion o gwympiadau a thoresgyrn yn bwysig er mwyn cynnal iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn. Dylid ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau Diogelu Oedolion rhanbarthol Bwrdd Diogelu Gwent y gellir dod o hyd iddynt yma [Adrodd neu beidio adrodd - canllawiau Diogelu Oedolion ( gwentSafeguarding.org.uk )], ac ar y cyd â'ch polisïau a gweithdrefnau sefydliadol eich hun.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn adnodd sy'n rhoi arweiniad er mwyn hybu arfer gorau ac arfer diogel o ran deall pryd y gall fod angen adrodd am gwymp fel pryder Diogelu. Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â barn broffesiynol. Nid yw'n cymryd lle'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae angen i ddarparwyr eu cael i sicrhau gofal diogel. Os oes unrhyw amheuaeth a ddylid codi pryder ynghylch Diogelu, dylai staff bob amser siarad â'r arweinydd Diogelu neu'r swyddog cyfatebol o fewn eu sefydliad.

## 2. <u>Diffiniadau</u>

### Cwymp

Mae sawl diffiniad o gwymp. Yn y canllaw hwn bydd y diffiniad a ganlyn yn cael ei ddefnyddio: -

'***digwyddiad sy'n achosi i berson, yn anfwriadol, ddod i orffwys ar lawr neu ar lefel is ac nad yw'n ganlyniad i ddigwyddiad cynhenid mawr, (fel strôc) neu berygl llethol'*** (Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) 2020)

### Diogelu Oedolion

*'Nod diogelu yw amddiffyn hawliau unigolion i fyw'n ddiogel, yn rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod tra'n hybu eu lles ac ystyried eu barn a'u dymuniadau'.* (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020). Mae hefyd yn ymwneud â phobl a sefydliadau yn cydweithio i atal a rhoi stop ar gam-drin ac esgeulustod.

Mae atal yn egwyddor allweddol mewn Diogelu Oedolion. Disgwylir i ddarparwyr roi ymyriadau ar waith er mwyn lleihau'r risg o gwympiadau, a niwed sy'n deillio o gwympiadau, ar gyfer pob person y maent yn eu cefnogi.

Yr hyn sy'n allweddol o ran atal a rheoli yw nodi'n gyntaf risg benodol yr unigolyn o gwympo, neu'r risg o niwed o gwympo, (ee tebygolrwydd uchel o dorasgwrn oherwydd osteoporosis) ac yna cynllunio gofal personol i reoli'r risgiau hynny.

### Oedolyn Mewn Perygl

Mae adran 126(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg fel oedolyn sydd:

1. Yn profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso,

2. Ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw un o’r anghenion hynny neu peidio), ac
3. O ganlyniad i'r anghenion hynny ni allant amddiffyn eu hunain rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r risg sy’n deillio o hyn

**Esgeuluso**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi bod esgeulustod: -

- disgrifio methiant i ddiwallu anghenion sylfaenol unigolyn, anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol, sy'n debygol o arwain at amhariad ar lesiant yr unigolyn (er enghraifft, nam ar iechyd yr unigolyn).
- Gall ddigwydd mewn ystod o leoliadau, fel annedd breifat, darpariaeth breswyl neu ofal dydd.

**Camdriniaeth**

Mae gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi y gall camdriniaeth:

- fod yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (yn cynnwys lladrad, twyll, pwysau ynghylch arian, camddefnyddio arian)
- ddigwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd breifat, sefydliad neu unrhyw le arall.

## 3. Pryd i gyfeirio neu beidio

Ni fydd angen cyflwyno Dyletswydd i Adrodd ar gyfer pob cwymp. Bydd prosesau a dyletswyddau ychwanegol o fewn sefydliadau hefyd, megis trefniadau hysbysu lleol a chenedlaethol, a gweithrediad y Dyletswydd Gonestrwydd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Bydd angen gweithredu’r Dyletswydd i Adrodd os yw'r unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg ac os oes
amheuaeth o gamdriniaeth neu gamdriniaeth sy’n hysbys sy’n gysylltiedig â’r gwymp.

Nid y Dyletswydd i Adrodd yw'r ffordd i gael mynediad at gymorth/gwasanaethau pellach mewn perthynas â
Cwympiadau

Gall cwymp fod yn fater Diogelu pan fo pryderon bod cam-drin neu esgeulustod (gan gynnwys hunan-esgeulustod) yn gysylltiedig â hi. Efallai bod pryderon bod y gwymp wedi digwydd oherwydd methiant i gadw at asesiadau risg neu brotocol cwympiadau.

Bydd angen i chi benderfynu a yw un o’r categorïau cam-drin canlynol yn berthnasol:

- **Esgeulustod** - Nid oedd y person(au) sy'n gyfrifol am yr anghenion gofal a chymorth wedi cyflawni eu cyfrifoldebau yn ôl y disgwyl cyn neu ar ôl y gwymp.

- **Cam-drin sefydliadol** - Digwyddodd y gwymp oherwydd methiannau systemig ehangach o fewn sefydliad. Gweler Protocol Cam-drin Cymhleth Oedolion - Mehefin 2023 (gwentSafeguarding.org.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

- **Cam-drin corfforol** - Fe wnaeth rhywun wthio/baglu'r oedolyn ac arweiniodd hyn at y gwymp.

- **Hunan-esgeuluso** - Digwyddodd y gwymp oherwydd diffyg hunanofal, diffyg gofal am eu hamgylchedd neu am eu bod wedi gwrthod gwasanaethau. Bydd galluedd meddyliol yn ystyriaeth allweddol yn yr achosion hyn. Gweler Pecyn Cymorth i Fesur Cam fanteisio ar Blant (gwentSafeguarding.org.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

**Gall y cwestiynau canlynol gefnogi eich penderfyniad ynghylch a oes angen Dyletswydd i Adrodd:**

| |
|---|
| **1) A oedd y person mewn perygl o gwympo ac felly a oedd modd rhagweld neu atal y gwymp? Ydy'r person wedi cwympo o dan amgylchiadau tebyg fwy nag unwaith?** |
| Os nad oedd y gwymp yn rhagweladwy, mae'n annhebygol y byddai'r gwymp yn cael ei hystyried o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Felly, dylai Ymarferwyr ystyried atgyfeirio at wasanaethau priodol. Dylai lleoliadau Preswyl, lleoliadau Nyrsio a lleoliadau Cymorth ddatblygu/diweddaru asesiadau risg a chynlluniau gofal perthnasol. |
| **2) A oes gan y person asesiad risg cwympiadau yn ei le ac a gafodd hwn ei ddogfennu, ei gyfathrebu, a'i ddilyn yn briodol?** |
| Os oedd yn hysbys bod person mewn perygl o gwympo, byddai disgwyl i hyn gael ei ddogfennu'n fanwl a'i gyfathrebu â'r holl ymarferwyr perthnasol. Byddai disgwyl hefyd bod asesiad risg a chynllun gofal yn eu lle er mwyn ceisio atal y cwympiadau a/neu leihau'r niwed a achosir oherwydd cwympiadau. Dylid llunio/ystyried Dyletswydd i Adrodd - Diogelu os oedd yn hysbys bod y person mewn perygl o gwympo, ac nad oedd y risg hon wedi'i dogfennu/cyfathrebu'n briodol. |
| 3) **A oedd yr holl offer angenrheidiol, (ee cloch alw, mat cwympo/synhwyrydd, cymhorthion cerdded) ar gael ac yn gweithio'n dda/yn addas i'r pwrpas? A ddefnyddiwyd y rhain yn ôl y disgwyl?** |
| Dylid llunio/ystyried Dyletswydd i Adrodd - Diogelu os y gallai'r gwymp fod wedi'i hatal, (neu os byddai'r lefel o niwed wedi gallu cael ei leihau) pe bai'n rhesymol disgwyl y dylai neu y gallai'r gwasanaeth fod wedi defnyddio offer penodol, (os oedd yr unigolyn wedi'u hasesu ac y penderfynwyd eu bod angen offer) ond nad oedd yr offer dan sylw ar gael. Mae hyn yn cynnwys a oedd offer ar gael ond ddim yn gweithio, neu ar gael ond nad oedd staff wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio. Pe bai offer ar gael ond heb ei ddefnyddio, gallai hyn awgrymu esgeulustod ar ran y staff ac felly mae'n briodol ystyried Dyletswydd i Adrodd - Diogelu. Mae hyn hefyd yn cynnwys os nad yw offer wedi cael gwasanaeth o fewn yr amserlen gywir neu os na chydymffurfiwyd â Rheoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi (LOLER). Bydd |

angen i Sefydliadau/Cyflogwyr ystyried eu cyfrifoldebau ar gyfer adrodd o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013.

**4) A yw'n bosibl bod trosedd wedi digwydd?**

Mae'n bosibl y gallai'r digwyddiad sy'n ymwneud â'r cwymp fod yn drosedd. Mae troseddau a allai fod yn berthnasol yn cynnwys cam-drin/esgeuluso bwriadol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005; torri Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Ymosodiad Cyffredin ac ati. Os mai dyma'r sefyllfa, dylid cyflwyno Dyletswydd i Adrodd - Diogelu, at hyn, mae'n rhaid cyflwyno adroddiad i'r Heddlu a/neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd angen i Sefydliadau/Cyflogwyr ystyried eu cyfrifoldebau ar gyfer adrodd o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013.

**5) A oes eraill mewn perygl nawr neu yn y dyfodol?**

Dylai llunwyr adroddiadau ystyried a oes arferion/gweithdrefnau anniogel o fewn sefydliad a allai arwain at niwed i oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud Dyletswydd i Adrodd - Diogelu Oedolion.

**6) Beth yw effaith y gwymp ar y person? Ee a yw'r cwymp wedi arwain at anaf, beth yw maint yr anaf?**

Ar ei ben ei hun, nid yw effaith y gwymp o reidrwydd yn pennu a ddylid gwneud Dyletswydd i Adrodd - Diogelu ai peidio e.e. efallai na fydd unrhyw niwed wedi digwydd y tro hwn, (gweler pwyntiau 2 a 3 uchod hefyd) ond bod pryder y gallai'r person/eraill fod mewn perygl yn y dyfodol. Fodd bynnag, po fwyaf difrifol yw effaith y cwymp, y mwyaf tebygol yw hi y dylid gwneud Dyletswydd i Adrodd - Diogelu. Gall fod yn amlwg bod y person wedi dioddef anaf sylweddol/difrifol sy'n gofyn am asesiad meddygol/clinigol gan feddyg neu barafeddyg e.e. anaf i'r pen, toriad esgyrn ac ati. Os bydd marwolaeth yn gysylltiedig â chwymp, dylai hyn bob amser arwain at drafodaeth gyda Thîm Diogelu Oedolion yr Awdurdod Lleol er mwyn ystyried a oes angen Dyletswydd i Adrodd.

**7) Beth yw barn y person neu ei gynrychiolydd o ran yr hyn y maent am ei weld yn digwydd?**

Ystyriaeth allweddol gydag unrhyw Ddyletswydd i Adrodd - Diogelu yw a yw'r person neu eu cynrychiolydd **yn cydsynio** i'r Ddyletswydd i Adrodd gael ei gwneud a'r hyn y maent am ei weld yn digwydd o ganlyniad i unrhyw adroddiad Diogelu. Os nad yw'r person neu eu cynrychiolydd yn cydsynio i'r Dyletswydd i Adrodd - Diogelu neu os nad ydynt yn dymuno i unrhyw beth ddigwydd, yna byddai angen i'r sawl sy'n llunio'r adroddiad ystyried a oes sail gyfreithiol dros weithredu'n groes i'r caniatâd e.e. oherwydd y gallai eraill fod mewn perygl, neu am fod hyn er budd y cyhoedd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â Thîm Diogelu Oedolion eich Awdurdod Lleol.

**8) Beth ddigwyddodd ar ôl y gwymp?**

Bydd angen i'r sawl sy'n llunio'r adroddiad ystyried a fyddai'r camau a gymerwyd yn dilyn y gwymp yn gyfystyr â Dyletswydd i Adrodd- Diogelu. Mae'n bosibl na fydd y

| |
|---|
| cwymp ei hun yn peri pryder o ran Diogelu, ond gallai'r camau gweithredu dilynol neu ddiffyg camau gweithredu fod yn gyfystyr â cham-drin/esgeulustod. Dylai'r sawl sy'n llunio'r adroddiad ystyried sut y cafodd anghenion uniongyrchol y person eu hasesu a'u bodloni. Os oedd hyn yn briodol, a oedd modd symud y person yn ddiogel; a geisiwyd sylw meddygol amserol ac angenrheidiol? |
| **9) A oedd tystion i'r gwymp?** |
| Os nad oedd tystion i'r gwymp, yna ni ellir gwybod yn union sut y daeth y person i fod ar y llawr. Mae'n bosibl iddynt gael eu gwthio neu eu taro drosodd gan rywun arall, neu efallai bod rhywbeth arall wedi digwydd. Yn yr achosion hyn, mae angen ystyried pob digwyddiad mor ofalus â phosibl, gan ddefnyddio unrhyw hanes neu wybodaeth hysbys, a gwneud dyfarniad ynghylch yr achos mwyaf tebygol. Ni fydd pob cwymp nad oedd tyst iddi yn digwydd oherwydd cam-drin neu esgeulustod ac felly nid oes angen ei adrodd fel pryder Diogelu. Bydd cofnodi'r manylion sydd ar gael, yr achosion a ystyriwyd a pha gamau a gymerwyd, hyd yn oed yn bwysicach pan na ellir pennu'r achos uniongyrchol. Os oes lefel uchel o ansicrwydd yn parhau, neu os na ellir diystyru anaf i'r pen, neu anaf difrifol/mawr arall, byddai angen gwneud Dyletswydd i Adrodd - Diogelu am y gwyn.<br><br>Efallai y bydd person yn gallu dweud eu bod wedi cwympo ac esbonio pam, hyd yn oed os nad oedd tyst. Nid yw bob amser yn angenrheidiol codi pryder Diogelu os: -<br>• nad oes ganddynt nam gwybyddol a fyddai'n achosi amheuaeth am eu stori.<br>• oes asesiad risg a chynllun gofal yn eu lle.<br>• oes protocol ôl cwympo, gan gynnwys arsylwadau, ceisio cyngor/asesiad meddygol, wedi'i ddilyn a'i ddogfennu'n gynhwysfawr. |

## 4. Cyfrifoldebau Darparwyr

Defnyddiwch eich llwybrau adrodd arferol i wneud Dyletswydd i Adrodd - Diogelu.

Gallai hyn fod yn uniongyrchol i Dîm Diogelu Oedolion eich Awdurdod Lleol.

Gellir gweld y broses ar gyfer cyflwyno Dyletswydd i Adrodd - Diogelu Gwent i'w gweld yma: Adrodd am oedolyn sy'n wynebu  risg - Diogelu Gwent.

**Gwybodaeth benodol i'w chynnwys o fewn Dyletswydd i Adrodd - Diogelu yn ymwneud â chwymp:**

- Cyd-destun y gwymp - nodwch amser a lleoliad - ble roedd y person, beth oeddent yn ei wneud, pwy, (os oedd unrhyw un yn bresennol)
- Anafiadau a gafwyd oherwydd y gwymp - atodwch fapiau o'r corff i'r atgyfeiriad. Mae ffotograffau yn ddefnyddiol ond mae angen sicrhau eich bod yn cael caniatâd priodol.
- Gwybodaeth yn ymwneud a chwympiadau yn y gorffennol / risg o gwympo / asesiad risg cwympiadau gan gynnwys hanes cwympiadau
- Camau a gymerwyd yn dilyn y gwymp, (ee manylion y protocolau ar ôl cwympo a ddilynwyd, ymyriad meddygol a geisiwyd a'r canlyniad, cyswllt â'r person/teulu ac ati).

- Unrhyw ymyriadau a chynlluniau sydd wedi'u rhoi ar waith i leihau'r risg o gwympo.

**Os nad yw'r cwymp yn gofyn am Ddyletswydd i Adrodd - Diogelu, bydd angen cymryd camau gweithredu o hyd er mwyn lleihau risgiau ac er mwyn ceisio atal cwympiadau rhag digwydd yn y dyfodol – dylech gyfeirio at bolisïau atal a rheoli cwympiadau eich sefydliad.**

| Cydnabod Risg | Mynd i'r afael â Risg |
|---|---|
| • Asesiad o anghenion y person unigol gan gynnwys hanes o gwympiadau neu risgiau o ran cwympo cyn iddynt gychwyn derbyn y gwasanaeth.<br>• Adolygu a diweddaru pan fydd y person yn cychwyn derbyn y gwasanaethau.<br>• Cwblhau asesiad risg cwympiadau a chynllun gofal a chyfathrebu gyda staff.<br><br>Ar ôl y Gwymp: -<br>• Dilynwch brotocol/ap 'I Stumble' ynghyd â'r Polisi Cwympiadau ar gyfer eich sefydliad. Mae'n rhaid i hyn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol. *Nid yw hyn yn disodli asesiad clinigol*<br>• Cofnodwch yr holl gwympiadau ar log digwyddiadau/cofrestr er mwyn gallu dadansoddi er mwyn nodi patrymau a thueddiadau er mwyn llywio camau gweithredu unigol neu unrhyw gamau eraill y dylid eu cymryd. | • Cynllun gofal unigol yn ei le er mwyn nodi a lliniaru cymaint o risgiau â phosibl sy'n ymwneud â chwympiadau y cytunwyd arnynt gyda'r person, eu cynrychiolwyr a/neu unrhyw randdeiliaid eraill.<br>• Mae Asesiad Risg Cwympiadau yn cael ei ddiweddaru/adolygu bob mis neu cyn hynny os bydd cwymp yn digwydd neu os bydd newid yn iechyd yr unigolyn cyn y dyddiad adolygu.<br>• Darparu gwybodaeth atal cwympiadau i staff a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Trefnu i staff fynychu hyfforddiant atal cwympiadau a rheoli ar ôl cwympiadau.<br>• Cyfeiriwch at y Meddyg Teulu neu'r gwasanaeth cwympiadau lleol am ymyrraeth a/neu gyngor.<br>• Cyfathrebu camau gweithredu/problemau/pryderon ynghylch cwympiadau drwy brosesau trosglwyddo staff neu brosesau cyfathrebu mewnol eraill.<br>• Ystyriwch ddiweddaru'r dyddiadur cwympiadau os oes un ar gael. |
| **Gweithredwch er mwyn Lleihau Cwympiadau** | **Adolygu a Monitro** |
| • Gwiriwch yr amgylchedd am risgiau cwympo, e.e. goleuo, cyflwr carpedi/lloriau anwastad ac ati.<br>• Gwiriwch ffactorau risg eraill, e.e. -<br>- A yw golwg y person wedi gwaethygu? Pryd gawson | • Adolygwch asesiad risg cwympiadau yn bob mis neu os bydd newidiadau i feddyginiaeth, iechyd neu pan fydd cwymp yn digwydd.<br>• Adolygwch y cynllun gofal yn rheolaidd os oes newidiadau i feddyginiaeth, iechyd neu os bydd cwymp/iadau yn digwydd. |

| | |
|---|---|
| nhw brawf llygaid ddiwethaf?<br>- A yw'r cofnod meddyginiaeth yn gyfredol ac yn cynnwys adolygiad o feddyginiaeth benodol ar gyfer cwympiadau?<br>- A allai defnyddio alcohol/cyffuriau fod yn ffactor?<br>- Sicrhewch bod offer yn cael eu gwasanaethu o fewn yr amserlen briodol a sicrhewch y cedwir at Reoliadau Offer Codi Gweithrediadau Codi (LOLER).<br>• Ystyriwch, nodwch a gweithredwch gamau i gael gwared ar neu leihau unrhyw risgiau o gwympo a nodir.<br>• A oes angen unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau/ymyriadau gan eraill? hy Nyrs Ardal, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd, Gwasanaeth Cwympiadau, Gwasanaeth Cyswllt Torasgwrn ac ati.<br>• Sicrhewch bod gan bob aelod o staff fynediad at addysg a hyfforddiant cyfredol perthnasol sy'n ymwneud â chwympiadau. | • Dadansoddwch gofnodion digwyddiadau/damweiniau cwympiadau er mwyn dod o hyd i sbardunau/patrymau a chymerwch gamau i ddileu neu leihau risgiau yn y dyfodol.<br>• Gallai codymau rheolaidd sy'n ymwneud â'r un person a/neu wasanaeth awgrymu'r angen am Dyletswydd i Adrodd - Diogelu.<br>• Adolygwch asesiad risg cwympiadau a chynllun gofal ar ôl rhyddhau person o'r ysbyty/neu ar ôl i berson gael ei drosglwyddo o leoliad arall. |

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 hefyd yn pennu dyletswyddau Byrddau Iechyd mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Os bydd ymchwiliad darparwr yn penderfynu bod niwed cymedrol neu uwch wedi digwydd (a allai fod yn wir os yw cwymp wedi cyrraedd y trothwy Dyletswydd i Adrodd) mae'n ofynnol i'r darparwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd bod ei Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i sbarduno. Bydd hyn yn gofyn am ymateb Dyletswydd Gonestrwydd gan Iechyd i'r claf a/neu berthynas, a'r angen i ystyried y niwed a achoswyd mewn perthynas â Rheoliadau Gweithio i Wella GIG Cymru. Gweler y dolenni isod am ragor o wybodaeth.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG. Cymru)

Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020;

Taflen Gweithio i Wella (Llywodraeth Cymru)

## 5. Enghraifft o Achosion

| **Mr. Jack** |
|---|
| Mae gan Mr Jack nam symudedd, nam gwybyddol, nam ar y clyw a'r golwg ac mae'n cael meddyginiaeth poen cryf ar bresgripsiwn. Mae ganddo hanes o boen parhaus yn y cymalau. Roedd Mr Jack wedi dioddef torasgwrn yn y gorffennol. Pan gafodd ei dderbyn i'r uned, cafodd Mr Jack gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r system larwm galw nyrs a oedd ynghlwm wrth wal ei ystafell wely a rhoddwyd larwm crog iddo hefyd i'w wisgo o amgylch ei wddf ac fe'i cynghorwyd i alw staff pan oedd yn dymuno codi. Asesodd ffisiotherapydd symudedd Mr Jack a dywedodd y dylai aelod o staff gerdded gyda Mr Jack a'i atgoffa i bwyso i mewn i'w ffrâm gan ei fod yn tueddu i bwyso'n ôl. Parhaodd ei feddyg teulu ac ymgynghorydd yr uned i fonitro lefelau poen a threfnu mwy o belydrau-x a chynyddwyd y presgripsiwn o feddyginiaeth poen. Roedd ei gynllun gofal symudedd yn cynghori staff i sicrhau bod Mr Jack bob amser yn gwisgo ei larwm crog neu'n eistedd o fewn cyrraedd llinyn larwm galw nyrs ac i ddilyn cyngor a roddwyd gan y ffisiotherapydd. Dilynodd y staff y cyfarwyddiadau, fodd bynnag, ar un achlysur ni ddefnyddiodd Mr Jack ei larwm crog na llinyn larwm galw nyrs i alw staff a chododd ar ei ben ei hun. Clywyd Mr Jack yn gweiddi a phan aeth staff i ymchwilio, cafwyd hyd iddo ar y llawr. Nid oedd Mr Jack wedi cael unrhyw anafiadau. Cefnogodd y staff Mr Jack i safle diogel a'i atgoffa i ddefnyddio ei larwm crog i alw am gymorth. Cwblhawyd ffurflen ddamwain, a chafodd ei symudedd, a'i gynllun gofal eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r adolygiad yn cymryd i ystyriaeth y ddibyniaeth ar Mr Jack ei hun i ddefnyddio cymhorthion galw i alw am help. O ystyried ei nam gwybyddol, rhoddwyd ystyriaeth i fatiau synhwyro.<br><br>Canlyniad: - **<u>NID OES</u>** angen Dyletswydd i Adrodd - Diogelu.<br><br>Rhesymeg:<br>✓ Risg cwympiadau hysbys gyda chynllun gofal symudedd yn ei le.<br>✓ Gweithwyr proffesiynol arbenigol ynghlwm ag asesu symudedd a risg o gwympo.<br>✓ Cymhorthion symudedd a chymhorthion galw yn eu lle – fodd bynnag, ni chânt eu defnyddio gan Mr Jack.<br>✓ Digwyddiad unwaith ac am byth yn achosi dim niwed.<br>✓ Ffurflenni digwyddiad wedi'u cwblhau.<br>✓ Cynllun gofal symudedd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru ar ôl cwympo.<br>✓ Newidiadau wedi'u cyfathrebu â staff. |
| **Mrs. Smith** |
| Mae Mrs Smith yn dioddef o ddementia ac mae angen hoist i'w symud bob amser. Dioddefodd gwymp yn lolfa ei chartref gofal ac nid oedd tystion. Arweiniodd hyn at ergyd uwchben ei ael chwith a dwy lygad ddu. Roedd staff yn y lolfa ond roeddynt yn delio â phreswylydd arall oedd angen y toiled. Nid yw Mrs Smith wedi cael codwm o'r blaen. Cludwyd hi i'r ysbyty; glanhawyd yr anaf, a gosodwyd dresin ar ei thalcen. Ers hynny, mae hi wedi bod yn iawn ac yn dal i allu eistedd yn y lolfa. Bellach, yn dilyn y digwyddiad hwn, mae aelod o staff yn y lolfa bob amser ond bydd aelod arall o staff yn cael eu galw i wylio Mrs Smith pryd bynnag y bydd yn y lolfa. Nid oes gan Mrs Smith y gallu i roi ei barn, ond mae ei mab wedi datgan ei fod yn fodlon â'r |

canlyniad ac nid yw am i'r mater gael ei ymchwilio ymhellach. Canfu'r ysbyty fod Mrs Smith wedi dioddef haint oherwydd diffyg hylif a'i bod yn edrych o dan ei phwysau.

Canlyniad: - **Mae** angen Dyletswydd i Adrodd - Diogelu.

Rhesymeg:

✓ Mae gan Mrs Smith anghenion gofal a chymorth.

✓Mae awgrym bod problemau iechyd sylfaenol y gellid eu hosgoi yn effeithio ar ei sefydlogrwydd – esgeulustod posibl.

✓ Er nad yw mab Mrs Smith eisiau i unrhyw beth arall ddigwydd, byddai er budd y cyhoedd i ddiystyru ei ddymuniadau o ystyried bod Mrs Smith yn byw mewn lleoliad gofal ac y gallai eraill fod mewn perygl.

**Mr. Ali**

Mae gan Mr Ali Glefyd Parkinson, a cafodd ddiagnosis 5 mlynedd yn ôl. Mae'n cadw ei apwyntiadau yn y Clinig Anhwylder Symud, ond mae rhai misoedd bellach ers ei adolygiad diwethaf. Mae'n cael galwadau gofal 4 gwaith y dydd, yn cymryd 6 meddyginiaeth ac mae ganddo nam gwybyddol. Yr unig berthynas sydd gan Mr Ali yw ei chwaer hŷn a dim ond ar y ffôn y maent yn cael cyswllt, felly nid yw'n ymwybodol o'i ddirywiad corfforol. Cafodd Mr Ali gwymp ar y ffordd i'r toiled am 7pm gyda'r nos, hanner awr ar ôl i'w ofalwr olaf adael, nid oedd tyst i'r gwymp. Ni chwympodd i'r llawr yn gyfan gwbl ond cleisiodd ei glun dde wrth iddo daro'r bath wrth iddo gwympo. Y tro hwn roedd yn gallu codi ei hun gan ddefnyddio'r bath a'r basn a symud i'r toiled gan ddefnyddio ffrâm y toiled a oedd yno'n barhaol. Galwodd y gofalwr y bore wedyn ac roedd Mr Ali yn amwys am y digwyddiad. Roedd y gofalwr dan bwysau ac ni sylwodd ar y clais ar glun dde Mr Ali. Nid oedd unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud ag unrhyw gwympiadau yr oedd Mr Ali wedi'u cael cyn hyn. Digwyddodd ail gwymp ddeuddydd yn ddiweddarach, eto, doedd dim tystion. Y tro hwn tarodd ei ben ar ymyl drws y toiled a gorwedd ar y llawr drwy'r nos. Yr oedd yn anymataliol o wrin ac ysgarthion. Cyrhaeddodd y gofalwr y bore wedyn, galwodd ambiwlans a chynorthwyo gyda gofal personol. Cafodd ei gludo i'r Adran Achosion Brys ar ôl aros am ambiwlans am tua 5 awr. Roedd ei arsylwadau a'i ymchwiliadau yn ymddangos yn normal, a chafodd ei ryddhau y noson honno heb fod angen unrhyw waith dilynol. Ailddechreuwyd galwadau gofal gyda galwad hwyrach y noson honno. Am hanner nos clywodd cymydog Mr Ali yn galw drwy'r wal. Galwyd ambiwlans.

Canlyniad: - **MAE** angen Dyletswydd i Adrodd - Diogelu

Rhesymeg:

✓ Mae gan Mr Ali anghenion gofal a chymorth

✓ Mae yna risg cwympiadau diweddar, ond hysbys

✓ Mae angen casglu rhagor o wybodaeth am esgeulustod posibl a chamdriniaeth sefydliadol – methu'r gwymp gyntaf, yr amser fu'n rhaid ei aros am ambiwlans, camau a gymerwyd i reoli risg ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, (e.e. ddim yn glir os oes asesiadau risg priodol clir yn eu lle, nac a oes offer i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â chwympiadau wedi'u darparu).

✓ Bydd angen i Ymchwiliad Diogelu ystyried ailasesiad llawn o anghenion gofal a chymorth Mr Ali.

**Timau Diogelu Awdurdodau Lleol**

**Blaenau Gwent**
Rhif ffôn 01495 315700
E-bost: DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

**Caerffili**
Rhif ffôn 0808 100 2500
E-bost: povateam@caerphilly.gov.uk neu IAAAdults@caerphilly.gov.uk

**Torfaen**
Rhif ffôn 01495 762200
E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

**Casnewydd**
Rhif ffôn 01633 656656
E-bost: firstcontact.adults@newport.gov.uk neu pova.team@newport.gov.uk

**Sir Fynwy**
Rhif ffôn 01873 735492
E-bost: MCCadultSafeguarding@monmouthshire.gov.uk

Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau
Rhif ffôn 800 328 443

**Atodiad 1**


ATODIAD 1 – Canllaw Cyflym i Wneuthurwyr Penderfyniadau
Cychwyn
Ydy'r person sydd wedi cwympo yn Oedolyn Mewn
Ydy
A yw'n hysbys bod y person yn wynebu risg o gwympo?
Ydy
Na
A oes amheuaeth o esgeulustod neu gamdriniaeth?
Na
Oe
Cliciwch Yma Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl - Diogelu Gwent i Gyflwyno Dyletswydd i Adrodd - Diogelu i Dîm Diogelu'r Awdurdod Lleol
A oes asesiad risg cwympiadau a chynllun gofal yn eu lle ac a gedwir atynt?
Na
Oes
Adolygu asesiad risg cwympiadau a chynllun gofal.
- A yw'r person yn sâl?
- Gwiriwch yr amgylchedd am risgiau cwympo.
- Gwiriwch ffactorau risg eraill, ee -
golwg, symudedd ac ati.
- A yw'r cofnod o feddyginiaeth yn gyfredol ac yn cynnwys adolygiad o feddyginiaeth benodol ar gyfer cwympiadau.
- A allai defnyddio alcohol/cyffuriau fod yn ffactor?
- Sicrhewch bod offer yn addas at y diben.
Ystyriwch, nodwch a gweithredwch gamau i gael gwared ar neu leihau unrhyw risgiau o gwympo a nodir.
- A oes angen atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau/ymyriadau gan eraill?
Sicrhewch bod gan bob aelod o staff fynediad at addysg a hyfforddiant cyfredol perthnasol sy'n ymwneud â